**Cyngor Cymuned BRYNCRUG Community Council**

## COFRESTR BUDDIANNAU AELODAU / REGISTER OF MEMBERS' INTERESTS

| |
|---|
| Yr wyf i, PETER ERNEST<br><br>I, |

aelod o **Gyngor Cymuned Bryncrug**, yn rhestru isod o dan y penawdau priodol fy muddiannau, y mae'n ofynnol imi eu datgan o dan God Ymddygiad Cynghorwyr a rhoddais "dim" pan nad oes gennyf unrhyw fuddiannau o'r fath o dan unrhyw benawdau.

a member of **Bryncrug Community Council**, set out below under the appropriate headings my interests, which I am required to declare under the Councillors' Code of Conduct and I have put "none" where I have no such interests under any heading.

### Buddiannau Ariannol Datgeladwy / Disclosable Pecuniary Interests

Mae'n rhaid i Aelodau gofrestru nid yn unig eu buddiannau eu hunain o dan y pennawd hwn ond hefyd rai eu cymar neu bartner sifil neu unrhyw berson y maent yn byw ag ef/hi yn ŵr a gwraig neu fel pe baent yn bartneriaid sifil a phan mae'r Aelod yn gwybod fod gan y person arall y buddiant.

Members are required to register not only their own interests under this heading but also those of their spouse or civil partner or of any person with whom they are living as husband and wife or as if they were civil partners and the Member is aware that the other person has the interest.

| 1. Eich cyflogaeth, safle, masnach, proffesiwn neu alwedigaeth a gyflawnir gennych neu gan y bobl hynny y cyfeirir atynt uchod am elw neu fudd (yn cynnwys unrhyw daliadau neu fuddiannau mewn da y mae'n rhaid talu Treth Incwm arnynt). Nid oes rhaid ichi ddangos manylion eich cyflog neu dâl.<br><br>Your employment, office, trade, profession or vocation carried on by you or those persons referred to above for profit or gain (includes any payments or benefits in kind which are subject to Income Tax). There is no requirement to indicate your salary or payment details. | |
|---|---|
| Aelod / Member:<br>Ymddeol | Cymar neu Bartner Sifil / Spouse or Civil Partner:<br>dim. |

<table>
<tr><td colspan="2">2. Unrhyw daliad neu unrhyw fuddiant ariannol arall (ac eithrio gan y Cyngor Cymuned/Tref) a wnaed neu a ddarparwyd yn ystod y 12 mis diwethaf o ran treuliau a ysgwyddwyd gennych yn cyflawni eich dyletswyddau yn Aelod, neu tuag at eich treuliau etholiadol allai gynnwys elfen o nawdd. Mae hyn yn cynnwys unrhyw daliad neu fuddiant ariannol gan undeb llafur o fewn ystyr Deddf Undebau Llafur a Chysylltiadau Llafur (Cydgrynhoi) 1992. Nid oes angen ichi ddangos lefel y taliad a dderbyniwyd ond dylech ddangos y ffynhonnell a'r math o daliad a dderbyniwyd (e.e. talodd undeb llafur penodol dreuliau ar gyfer y dibenion y mae angen eu nodi).<br><br>Any payment or provision of any other financial benefit (other than from the Community/Town Council) made or provided within the last 12 months in respect of expenses you have incurred in carrying out your duties as a member, or towards your election expenses which could include an element of sponsorship. This includes any payment or financial benefit from a trade union within the meaning of the Trade Union and Labour Relations (Consolidation) Act 1992. There is no requirement to indicate the level of payment received but you should indicate the source and type of payment received (e.g. a specific trade union to be named paid expenses for the purpose that needs to be stated).</td></tr>
<tr><td>Aelod / Member:</td><td>Cymar neu Bartner Sifil / Spouse or Civil Partner:</td></tr>
<tr><td colspan="2">3. Disgrifiad o unrhyw gontract ar gyfer nwyddau, gwasanaethau neu waith a wnaed rhwng y Cyngor Cymuned/Tref a chi neu'r bobl y cyfeiriwyd atynt uchod (neu gorff y mae gennych neu y mae ganddynt fuddiant manteisiol ynddynt) ac na chawsant eu cyflawni'n llawn.<br><br>A description of any contract for goods, services or works made between the Community/Town Council and you or the persons referred to above (or a body in which you or they have a beneficial interest) and which has not been fully discharged.</td></tr>
<tr><td>Aelod / Member:</td><td>Cymar neu Bartner Sifil / Spouse or Civil Partner:</td></tr>
</table>

4. Unrhyw dir neu eiddo yn ardal y Cyngor Cymuned/Tref y mae gennych fuddiant manteisiol ynddynt.

Any land or property in the Community/Town Council's area in which you have a beneficial interest.

| Aelod / Member: | Cymar neu Bartner Sifil / Spouse or Civil Partner: |
|---|---|
| Tŷ | Tŷ |

5. Unrhyw dir neu eiddo yn ardal y Cyngor Cymuned/Tref y mae gennych chi neu bobl y cyfeiriwyd atynt uchod drwydded (yn unigol neu ar y cyd ag eraill) i'w feddiannu am fis neu ragor.

Any land or property in the Community/Town Council's area for which you or the persons referred to above have a licence (alone or jointly with others) to occupy for a month or longer.

| Aelod / Member: | Cymar neu Bartner Sifil / Spouse or Civil Partner: |
|---|---|
| | |

6. Unrhyw denantiaeth lle hyd y gwyddoch chi y landlord yw'r Cyngor Cymuned/Tref ac mae'r tenant yn gorff y mae gennych chi neu berson y cyfeiriwyd ato/i uchod fuddiant manteisiol ynddo.

Any tenancy where to your knowledge the landlord is the Community/Town Council and the tenant is a body in which you or a person referred to above has a beneficial interest.

| Aelod / Member: | Cymar neu Bartner Sifil / Spouse or Civil Partner: |
|---|---|
| | |

7. Enw unrhyw berson neu gorff y mae gennych chi (neu berson y cyfeiriwyd ato/i uchod) fuddiant manteisiol yng ngwarannau y corff hwnnw lle:

   (a) y mae gan y corff hwnnw (hyd y gwyddoch chi) le busnes neu dir/eiddo yn ardal eich Cyngor Cymuned/Tref; a

   (b) naill ai-

      (i) mae cyfanswm gwerth enwol y gwarannau yn fwy na £25,000 neu ganfed ran o gyfanswm cyfalaf cyfranddaliadau a ddyroddwyd y corff hwnnw; neu

      (ii) os yw cyfalaf cyfranddaliadau y corff hwnnw yn dod o fwy nac un dosbarth, mae cyfanswm gwerth cyfalaf cyfranddaliadau unrhyw ddosbarth y mae gennych chi neu berson y cyfeiriwyd ato/i uchod) fuddiant manteisiol sy'n fwy na chanfed ran o gyfanswm cyfalaf cyfranddaliadau a ddyroddwyd y dosbarth hwnnw.

   The name of any person or body in which you (or a person referred to above) has a beneficial interest in securities of that body where:

   (a) that body (to your knowledge) has a place of business or land/property in the area of your Community/Town Council; and

   (b) either-

      (i) the total nominal value of the securities exceeds £25,000 or one hundredth of the total issue share capital of that body; or

      (ii) if the share capital of that body is of more than one class, the total nominal value of the shares of any one class in which you or a person referred to above has a beneficial interest exceeds one hundredth of the total issue share capital of that class.

| Aelod / Member: | Cymar neu Bartner Sifil / Spouse or Civil Partner: |
|---|---|
| | |

**<u>Buddiannau Ariannol Eraill / Other Pecuniary Interests</u>**

Nid oes ond disgwyl i Aelodau gofrestru eu buddiannau eu hunain o dan y pennawd hwn ac nid oes angen iddynt gynnwys buddiannau cymheiriaid neu bartneriaid sifil neu eraill.

Members are only obliged to register their own interests under this heading and do not need to include the interests of spouses or civil partners or others.

8. Enw'r person neu fudiad sy'n eich cyflogi neu a'ch penododd chi, enw unrhyw gwmni yr ydych yn bartner ynddo ac enw unrhyw gwmni yr ydych yn gyfarwyddwr taledig arno.

The name of the person or organisation who employs or has appointed you, the name of any firm in which you are a partner and the name of any company for which you are a remunerated director.

9. Disgrifiad o unrhyw gontract ar gyfer nwyddau, gwasanaethau neu waith a wnaed rhwng y Cyngor Cymuned/Tref a chi (neu gorff y mae gennych fuddiant manteisiol ynddo) ac a gyflawnwyd yn llawn o fewn y 6 mis diwethaf.

A description of any contract for goods, services or works made between the Community/Town Council and you (or a body in which you have a beneficial interest) and which has been fully discharged within the last 6 months.

**<u>Buddiannau Anariannol Cofrestradwy / Registrable Non- Pecuniary Interests</u>**

Nid oes ond disgwyl i Aelodau gofrestru eu buddiannau eu hunain o dan y pennawd hwn ac nid oes angen iddynt gynnwys buddiannau cymheiriaid neu bartneriaid sifil neu eraill.

Members are only obliged to register their own interests under this heading and do not need to include the interests of spouses or civil partners or others.

10. Eich Aelodaeth o unrhyw gorff neu'r ffaith fod gennych swydd reoli cyffredinol yn y cyfryw gorff:-

(a) y cawsoch eich penodi neu eich enwebu arno gan y Cyngor Cymuned/Tref
(b) sy'n cyflawni swyddogaethau o natur gyhoeddus (gan gynnwys bod yn Llywodraethwr Ysgol neu'n aelod o gorff cyhoeddus arall)
(c) sy'n gweithio at ddibenion elusennol
(d) sy'n cynnwys ymhlith ei brif ddibenion dylanwadu ar farn y cyhoedd neu bolisi cyhoeddus (gan gynnwys unrhyw blaid wleidyddol neu undeb llafur).

Sylwer: Dylech wahaniaethu'n glir rhwng aelodaeth gyffredinol ac aelodaeth sy'n cynnwys

rheolaeth gyffredinol.

Your membership of or the fact that you are in a position of general management and control of any body:-

(a) to which you have been appointed or nominated by the Community/Town Council
(b) exercising functions of a public nature (including being a School Governor or a member of another public body)
(c) directed towards charitable purposes
(d) one of whose principal purposes includes the influence of public opinion or policy (including any political party or trade union).

Note: You should clearly distinguish between general membership and membership involving general management and control.

11. Enw unrhyw berson/mudiad y cawsoch rodd neu letygarwch ganddynt ag iddo werth tybiedig o £25 o leiaf.

The name of any person/organisation from whom you have received a gift or hospitality with an estimated value of at least £25.

Yr wyf yn cydnabod y gallwn dorri'r Cod Ymddygiad trwy:-

a. hepgor gwybodaeth y dylid ei rhoi yn yr hysbysiad hwn;

b. darparu gwybodaeth ffug neu gamarweiniol mewn ffordd sy'n arwyddocaol;

c. methu rhoi hysbysiadau ychwanegol er mwyn diweddaru gwybodaeth a roddwyd yn yr hysbysiad hwn wedi imi gael fy ail-ethol neu fy ail-benodi neu fethu datgelu buddiant ariannol datgeladwy yr wyf yn ei gaffael ar ôl dyddiad yr hysbysiad hwn ac y mae'n rhaid imi ei ddatgan yn ôl darpariaethau'r Cod Ymddygiad;

d. methu rhoi hysbysiad ysgrifenedig i Glerc y Cyngor am unrhyw newid yn fy muddiannau a gynhwysir yn yr hysbysiad hwn o fewn 28 diwrnod imi ddod yn ymwybodol o'r cyfryw newid amgylchiadau.

I acknowledge that it may be a breach of the Code of Conduct to:-

a. omit information that ought to be given in this notice;

b. provide information that is materially false or misleading;

c. fail to give further notices in order to bring up to date information given in this notice after my re-election or reappointment or to fail to declare a disclosable pecuniary interest that I acquire after the date of this notice and have to declare under the provisions of the Code of Conduct;

d. fail to provide written notification to the Clerk to the Council of any change in my interests contained in this notice within 28 days of my becoming aware of such change of circumstances.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Llofnodwyd** / Signed | [signature] | **Dyddiedig** / Dated | 15-9-16 |

Derbyniwyd gan / Received by:

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Llofnodwyd** Signed | [signature] | **Dyddiedig** Dated | 1-6-17 |

**Swyddog Priodol ar gyfer Cyngor Cymuned ~~Tywyn~~** Bryncrug [signature]

Proper Officer for Bryncrug Community Council

## Nodiadau Arweiniol / Guidance Notes

Mae'r disgrifiadau o fuddiannau yn cyfeirio at y diffiniadau canlynol:

The descriptions of interests are subject to the following definitions:

| | |
|---|---|
| "corff y mae gan y person perthnasol fuddiant manteisiol ynddo"<br><br>"body in which the relevant person has a beneficial interest" | mae'n golygu cwmni y mae'r person perthnasol yn bartner ynddo neu gorff corfforaethol y mae'r person perthnasol yn gyfarwyddwr ynddo, neu yn y gwarannau y mae gan y person perthnasol fuddiannau manteisiol ynddynt.<br><br>means a firm in which the relevant person is a partner or a body corporate of which the relevant person is a director, or in the securities of which the relevant person has a beneficial interest. |
| "cyfarwyddwr"<br><br>"director" | mae'n cynnwys aelod o bwyllgor rheoli cymdeithas ddiwydiannol a darbodus.<br><br>includes a member of the committee of management of an industrial and provident society. |
| "tir"<br><br>"land" | nid yw'n cynnwys hawddfraint, buddiant neu hawl mewn neu ar dir nad yw hefyd yn cynnwys hawl i'r person perthnasol (yn unigol neu ar y cyd ag eraill) feddiannu'r tir neu dderbyn incwm.<br><br>excludes an easement, servitude, interest or right in or over land which does not carry with it a right for the relevant person (alone or jointly with another) to occupy the land or to receive income. |
| "aelod"<br><br>"member" | mae'n cynnwys aelod cyfetholedig.<br><br>includes a co-opted member. |
| "awdurdod perthnasol"<br><br>"relevant authority | mae'n golygu'r awdurdod y mae'r aelod yn aelod ohono.<br><br>means the authority of which the member is a member. |
| "cyfnod perthnasol"<br><br>"relevant period" | mae'n golygu'r cyfnod o 12 mis yn diweddu ar y diwrnod y rhodda'r aelod wybod i Glerc y Cyngor at ddibenion cofrestru buddiant o dan y Cod Ymddygiad.<br><br>means the period of 12 months ending with the day on which the member gives a notification to the Clerk to the Council for the purposes of registering an interest under the Code of Conduct. |
| "person perthnasol"<br><br>"relevant person" | mae'n golygu'r aelod neu ei gymar/chymar neu bartner.<br><br>means the member or his / her spouse or partner. |
| "gwarannau"<br><br>"securities" | mae'n golygu cyfranddaliadau, debenturau, stoc debentur, stoc benthyca, unedau cynllun buddsoddi cyfunol o fewn ystyr Deddf Gwasanaethau a Marchnadoedd Ariannol 2000 a gwarannau eraill o unrhyw fath, ac eithrio arian a fuddsoddir gyda chymdeithas adeiladu.<br><br>means shares, debentures, debenture stock, loan stock, bonds, units of a collective investment scheme within the meaning of the Financial Services and Markets Act 2000 and other securities of any description, other than money deposited with a building society. |
| **Buddiannau Ariannol / Pecuniary Interests** | |
| "cyflogaeth, safle, masnach, proffesiwn neu alwedigaeth"<br><br>"employment, office, trade, profession or vacation" | mae'n cynnwys unrhyw gyflogaeth, safle, masnach, proffesiwn neu alwedigaeth a gyflawnir er mwyn elw neu fudd.<br><br>includes any employment, office, trade, profession or vocation carried on for profit or gain. |
| "nawdd" | mae'n cynnwys unrhyw daliad neu unrhyw fuddiant ariannol arall (ac eithrio gan yr awdurdod perthnasol) a wnaed neu a ddarparwyd o fewn y cyfnod perthnasol ar gyfer unrhyw dreuliau a ysgwyddwyd gan yr aelod wrth gyflawni dyletswyddau yn aelod, neu ar gyfer treuliau etholiadol yr aelod. Mae hyn yn cynnwys unrhyw daliad neu fuddiant ariannol gan undeb llafur o fewn ystyr Deddf Undebau Llafur a Chysylltiadau Llafur (Cydgrynhoi) 1992(**a**). |

| | |
|---|---|
| "sponsorship" | includes any payment or provision of any other financial benefit (other than from the relevant authority) made or provided within the relevant period in respect of any expenses incurred by the member in carrying out duties as a member, or towards the election expenses of the member. This includes any payment or financial benefit from a trade union within the meaning of the Trade Union and Labour Relations (Consolidation) Act 1992(**a**). |
| "contractau"<br><br>"contracts" | mae'n cynnwys unrhyw gontract a wneir rhwng y person perthnasol (neu gorff y mae gan y person perthnasol fuddiant manteisiol ynddo) ac ardal y Cyngor perthnasol -<br>(a) ar gyfer darparu nwyddau neu wasanaethau neu ar gyfer cyflawni gwaith; ac<br>(b) na chawsant eu cyflawni'n llawn.<br><br>includes any contract which is made between the relevant person (or a body in which the relevant person has a beneficial interest) and the relevant Council area -<br>(a) under which goods or services are to be provided or works are to be executed; and<br>(b) which has not been fully discharged. |
| "tir/eiddo"<br><br>"land/property" | mae'n cynnwys unrhyw fuddiant manteisiol mewn tir sydd o fewn ardal yr awdurdod perthnasol.<br><br>includes any beneficial interest in land which is within the area of the relevant authority. |
| "trwyddedau"<br><br>"licences" | mae'n cynnwys unrhyw drwydded (yn unigol neu ar y cyd ag eraill) i feddiannu tir yn ardal yr awdurdod perthnasol am fis neu ragor.<br><br>includes any licence (alone or jointly with others) to occupy land in the area of the relevant authority for a month or longer. |
| "tenantiaethau corfforaethol"<br><br>"corporate tenancies" | mae'n cynnwys unrhyw denantiaeth lle (hyd y gwyddai'r aelod) -<br>(a) y landlord yw'r Cyngor perthnasol; ac mae'r<br>(b) tenant yn gorff y mae gan y person perthnasol fuddiant manteisiol ynddo.<br><br>includes any tenancy where (to the member's knowledge) -<br>(a) the landlord is the relevant Council; and<br>(b) the tenant is a body in which the relevant person has a beneficial interest. |
| "gwarannau"<br><br>"securities" | mae'n cynnwys unrhyw fuddiant manteisiol yng ngwarannau corff lle -<br>(a) y mae gan y corff hwnnw (hyd y gwyddai'r aelod) le busnes neu dir yn ardal y Cyngor perthnasol; a<br>(b) naill ai -<br>(i) mae cyfanswm gwerth enwol y gwarannau yn fwy na £25,000 neu ganfed ran o gyfanswm cyfalaf cyfranddaliadau a ddyroddwyd y corff hwnnw; neu<br>(ii) os yw cyfalaf cyfranddaliadau y corff hwnnw yn dod o fwy nac un dosbarth, mae cyfanswm gwerth cyfalaf cyfranddaliadau unrhyw ddosbarth y mae gennych chi neu berson y cyfeiriwyd ato/i uchod) fuddiant manteisiol sy'n fwy na chanfed ran o gyfanswm cyfalaf cyfranddaliadau a ddyroddwyd y dosbarth hwnnw.<br><br>includes any beneficial interest in securities of a body where -<br>(a) that body (to the member's knowledge) has a place of business or land in the area of the relevant Council area; and<br>(b) either -<br>(i) the total nominal value of the securities exceeds £25,000 or one hundredth of the total issued share capital of that body; or<br>(ii) if the share capital of that body is of more than one class, the total nominal value of the shares of any one class in which the relevant person has a beneficial interest exceeds one hundredth of the total issued share capital of that class. |